

Lluniau'r Hydref



llun:lolo Ap Gwynn



llun:Gerallt Pennant

Bras gofnodiad o hanes y gwynt mawr, a'r don fawr, ar ddydd Gwener Hydref 28, 1927, o Borthmadog i Dalsarnau, a Maentwrog.

Y storm a nodir uchod oedd y fwyaf a ddigwyddodd erioed hyd y gwyddom, ac nid gormodiaeth a fydd dim o'r hanes hwn a adroddir amdani, ond rhy brin a chynil. Ar ôl 2 o'r gloch y nawncododd y gwynt yn raddol o'r De. Ar ôl 6 yr hwyr, cynyddodd wedyn, ac yr oedd yn ei nerth dychrynlyd rhwng 8 a 10, yna graddol leihaodd erbyn 12eg. Rhwng 8 a 9 daeth ton anferth (*tidal wave*) i Borthmadog, Talsarnau, a Maentwrog. Rhedodd i mewn i'r tai yn y rhannau isaf o Borthmadog gan beri dychryn mawr. Yn y cyfamser oherwydd methu dal ei phwysau, torrodd Cob y Llyn Bach yn fwll tua 100 llath o hyd, a thynnodd hynny y don yn ôl nes y rhedodd i'r Traeth Mawr, ac oni bae hynny, ni wyr neb faint o ddfrod, a choll ar fywydau fuasai wedi digwydd yn y dre. Gwnaeth anrhaith fawr ar ben y Cob Mawr hefyd. Maluriwyd gwely Reilffordd Gul Ffestiniog ar ei ben, fel y bu raid ei hadgyweirio o ddydd Sadwrn hyd nos Lun, cyn y gellid mynd a thren y gweithwyr fore Mawrth i fyny. Taflodd y don y wal gul wrth ben, buasant yn mesur tua hanner y Cob. Bu amryw o motor lorries yn cludo'r ysbwriel ymaith o fore Sadwrn, hyd ddydd Llun. Taflodd y gwynt y rhan fwyaf o bolion pellebyr [sic] llinell y G.W.R, i lawr rhwng gorsaf Porthmadog a Minffordd.

Yr oedd y dŵr yn uwch o lawer na platform gorsaf y Penrhyn, a safai pobl ar feinciau, bocsus etc, i aros y tren yno. Tarodd y prif bibell ddwr yn ymyl y Gwaith Pylor gerllaw, a golchodd y don fawr dros y reilffordd a Phont Briwet, ac ysigodd y bont, a maluriodd y fences o bobtu, a thynodd y rwbwl mewn llawer man odditan y reilffordd. O ochr Talsarnau i'r bont, ysgubodd y cob, sef gwely uchel y reilffordd yn glir ymaith, ac ystumwyd y reiliau yn bob llun, a hongiai y slippers wrthynt yma ac acw, hyd orsaf Talsarnau, a bu cannoedd o ddynton yn ei thrwsio am tua pythefnos. Boddodd cannoedd o ddefaid, amryw warthog, moch, ieir etc o gŵr ynys Llanfihangel hyd Glan y Wern, a Bron Tecwyn, ac ymhen rhai dyddiau wedi i'r dwr dreio, casglwyd cymaint ag a gafwyd o honnynt at eu [sic] gilydd yn un pentwr mawr, a thywalltwyd paraffin ar domen o goed i'w llosgi ar gae ger Capel Bron Tecwyn. Chwalwyd pob clawdd cerrig o'r Penrhyn hyd Dalsarnau, a llanwyd pob gwrych, gwifrau pigog, wire netting, â gwair, gwellt, brwyn etc. Chwalwyd cloddiau terfyn o bridd, neu dros y Cob mawr, drwy i garreg, neu rywbeth ei tharo. Gan y digwyddai fod y galw am gynrychchwarel setts Minffordd yn isel ar y pryd, bu'r difrod ar reilffordd y G.W.R, o fantais i'r gwaith, oherwydd cludwyd oddiyno filoedd o dunelli o bob math gerrig i fyny i rai o ddwy i dair tunell o bwysau, i lanw agenau a wnaed yngwely y ffordd gan y don fawr, a'r môr, a buwyd yn eu cludo am fisoedd o dro i dro, oddi yno. [Mwy am y storm hwn yn y Tywyddiadur.](#)

Papurau Ioan Brothen LIGC

Ymddiheuriad - Apology - Excuses

Oherwydd cyfres o ddigwyddiadau anffodus ni fydd y Bwletin yn ymddangos yn ei drefn rheolaidd am sbèl. Un rheswm yw anffawd diweddar y Golygydd. Hyderwn na fydd hyn yn effaith tymor hir. Rheswm arall yw'r trafferthion buom yn eu cael ers tro yn cynnal ein dosbarthu torfol. Mi fydd y llythyr yn cyhoeddi'r Bwletin misol yn cyrraedd rhai ohonoch fel erioed, ond bydd eraill yn eich plith yn gorfod bodloni ar gyrchu'r bwletin diweddaraf yn uniongyrchol o wefan Llên Natur hyd oni lwyddom i adfer y system. Ymddiheuriadau am hyn (ac os oes unrhywun ohonoch a phrofiad gyda ebostio torfol ac yn gallu ein helpu, rhowch floedd).

As a result of a number of unfortunate circumstances the Bwletin will not be appearing in its usual order for a while. One reason for this is the editor's recent accident. Another reason is the technical difficulty we have been experiencing with bulk mailings. The letter announcing the publication of the latest bulletin will reach some of you as it has always done, but many of you will have to be content with accessing the latest bulletin directly through the Llên Natur website until we can resolve these difficulties. We apologise for this (and if any of you have experience of bulk e-mailings and think you might be able to help us, do please let us know)

En conséquence d'une suite de circonstances fâcheuses, le Bulletin ne sortira pas dans son ordre habituel pendant quelque temps. Cela se doit en partie à l'accident récent du rédacteur. Et puis aussi aux problèmes techniques éprouvés depuis un certain temps avec les mailings en gros. Quelques lecteurs recevront comme toujours la lettre qui annonce la sortie du bulletin le plus récent, mais il y en aura beaucoup qui devront se contenter d'accéder à ce bulletin tout droit du site Web Llên Natur en attendant la résolution de ces difficultés. Nous vous prions de nous excuser de cette lacune - et si vous connaissez déjà le monde des mailings en gros, veuillez nous en faire savoir si vous pouvez nous aider.

Manylion cysylltu / Contact information / Les coordonnées: llennatur@yahoo.co.uk

Coprinopsis atramentaria Cnapan Inc,



Llun: Alun Williams

Llanelwy, Hydref 6ed 2013

'Rwyf wedi cael pryd o rhain unwaith - blasus... Ond mae nhw yn dweud i beidio yfed diod meddwol gyda'r pryd... mae hyn yn eu gwneud yn wenwynig.

Sion Roberts

Ia, mae'r elfen wenwynig hon yn cael ei ddefnyddio i ddiddynu pobl oddiar eu caethiwded i alcohol yn ôl pob son. Gol.

Y Grymanbig Ddu - mwy cyffredin yma ar un adeg?

IN connexion with the note in last month's BRITISH BIRDS (p. 307) on the above subject by Mr. Gurney, the following may be of interest:— On September 13th, 1906, I was following otter-hounds at Wangford in Suffolk, and while hounds were drawing a piece of marshy swamp, four of these birds were seen. They rose and flew round, coming quite close over members of the Field, several times. At the time I was standing near an old yokel, and I turned to him and asked him what he called them, and without a moment's hesitation he replied: " Well, we used to call 'em black curloo," and he went on to tell me that he "minded a time when they were common". The next day I happened to be at a place on the Aldeburgh river, about twenty-one miles from Wangford, and I was informed that somewhere about a fortnight before a couple of these birds had been shot out of a flock of six in all probability the same lot as I saw at Wangford. This old man's remark about the name seems to go to prove that the idea of the local name of " black curlew " is not so unlikely as Mr. Gurney suggests.

E. Fraser Stanford.

Pysgodyn Mawr - parhad o Fwletin 68

Dyma lun roddwyd i mi gan fy nhad, Eirian Davies gynt o Nantgaredig ger Caerfyrddin, yn dangos sturgeon a ddaliwyd yn yr afon Tywi tua ugeiniau'r ganrif ddiwethaf. Dywedodd dad fod cyfaill iddo wedi ei ddefro yn gynnar un bore gan feddwl fod buwch wedi disgyn i'r afon ger pont Nantgaredig, gan fod trwst mawr i'w glywed. Nid buwch, ond sturgeon oedd wedi ei ddal mewn pwll ar gwr yr afon. Daliwyd y pysgodyn a'i gario i glos fferm Llandeilo Fawr gerllaw, lle tynnwyd y llun. Disgrifiodd dad fel yr oedd yr wyau (caviar?) yn llifo o'r pysgodyn dros glos y fferm fel llaid. Gan mai pysgodyn brenhinol yw'r sturgeon cyn hir daeth cert i gludo'r pysgodyn i'r orsaf i'w ddwyn gerbron y brenin yn Llundain. Beth amser wedyn derbyniodd fy nhadcu, David Davies o'r Llain, Nantgaredig, deligram brenhinol yn diolch am ymdrechion y arbed y pysgodyn mawr. Wedi darllen y teligram ac oedi tipyn, rholiodd dadcu y papur yn belen a'i daflu i lygad y tân.



Llun a hanes gan Guto Davies

Eglwys Betws Garmon a Betws Inn 1883



Llun o eiddo teulu Williams, Gilwern Uchaf, Rhostryfan, gyda diolch am y cyfle i'w gopio. Y dyddiad o dan y llun mewn ysgrifen copperplate yw 10 Awst 1883. "Bettws Garmon photographed by I.Ninsley" sydd odditano.

Llun: Gwilym Lloyd Williams > Duncan Brown

Dyma'r argraffiadau cyntaf: mae cletrau rheilffordd ar y gwaelod-chwith. Nid yw tyllau mwynglawdd haearn Moel Eilio wedi eu creu. Mae cofgolofn Owain Gwryfai yn ymddangos fel ei fod yno yn y fynwent ond angen gwirio hwnnw. Bu farw yn 1874 naw mlynedd cyn tynnu'r llun. Dydd Gwener oedd y 10 Awst 1883 ond mae'r bobl i'w gweld fel petaent yn eu dillad gorau - achlysur arbennig ynteu dangos eu hunain i'r camera? Ffrwydrodd llosgfynydd Karakatoa tair wythnos wedyn.

Wikipedia am hanes y lein yn y llun

http://en.wikipedia.org/wiki/North_Wales_Narrow_Gauge_Railways

Ddoth y bobl allan gan wybod fod yna rhywun yn tynnu llun, neu bod y ffotograffydd wedi gofyn iddynt?

Ifor Williams

Crymanbig ddu ger Afon Clwyd yn ardal Rhuddlan, Medi 30, 2013.



Llun Eifion Griffiths

Cyfeirnod grid: SJ 016785

Ma na fewn lifiad o'r adar trawiadol yma i Ynysoedd Prydain a Chymru wedi digwydd bron pob blwyddyn ers 2007. Y rheswm am hyn mae'n debyg yw'r cynydd aruthrol yn y boblogaeth sy'n magu yn ne Sbaen yn Donana. Hyn yn cyd-fynd â'r cynydd ym mhobogaethau creyrod eraill yn Ewrop ac sydd yn ymestyn eu tiriogaeth i'r gogledd tuag atom. Adar ifanc ydi'r rhain fel arfer yn gwasgaru yn dilyn tymor magu llwyddianus. Eleni penderfynod y Pwyllgor adar prin Prydeinig na fyddant yn derbyn ac adolygu cofnodion o'r Crymanbig o hyn ymlaen oherwydd fod y cofnodion wedi dod mor niferus yn y blynyddoedd ddwytha.

Rhys Jones

Canmlwyddiant corwynt Edwardsville, Merthyr 27 Hydref 1913



<http://www.alangeorge.co.uk/tornado.htm>

Llau eithin... nid pry'cop



Llun:Duncan Brown

ger mynedfa Chatham, Llanwnda 22 Medi 2013 sh450577

Meddai ein arbenigwr Richard Gallon: "It's not a spider this time. These are Gorse Mites (*Tetranychus lintearius*) - the webs they create are amazing and I've been fooled several times thinking I'd found an interesting spider web!"


Cawsom lun arall oddiwrth Jonathan Simcock, gyda'r nodyn canlynol: "Dyma ddau ffoto wnes i dynnu ar fy nheithiau yng Nghymru... rhyw fath o we pryfed cop ar ben llwyni eithin ar y llwybr sy'n dod lawr o ben Constitution Hill,



Llun: Jonathan Simcock

Aberswyth, dydd Sul penwythnos diweddaf [31 Hydref 2013]. Oes gan eich arbenigwyr syniad am darddiad y pethau yma? A pha rywogaeth sy'n debyg o fod yn gyfrifol?". Blwyddyn da i'r llau eithin tybed? Wyddoch chi am eraill? Mae llau eithin yn gwneud niwed parhaus i eithin ac yn fwyd l fychod coch cwta. Mae'n ymledol yn yr UD ar ol cael ei drawsblannu yno.

Dwy Gneuen.....



Ilun: Duncan Brown

ei hagar gan *Apodemus sylvaticus* [llygoden y coed], a'r dde gan *Clethrionomys* - llygoden bengron goch] mewn caethiwed Sylwch ar y ddau ddull gwahanol o agor y gneuen.

DB

Llun a dynais o gnau y ddau wedi eu hagar gan ddau fath o lygoden ar ôl ei bwydo a chnau mewn caethiwed ddechrau'r 1990au. Capiwn ar gefn y llun gwreiddiol: "dwy gneuen-y chwith wedi

Yr Eos.... mewn geiriau



Cae'r Eos (cartref Dic Aberdaron) tua chanrif yn ôl (Cyhoeddwr Thomas Bros & Co, Everton, Lerpwl)

Ymddangosodd y sylw hwn ym mhapur newydd Y Dydd 22 Mai 1874: "Y mae un o naturiaethwyr enwog Germany wedi cyfieithu can yr Eos (nightingale) i'r ffurf a ganlyn: — "Zozozozozozozozo— Sirhading—Hezez zezezez ezezeze cowar he dze hoi-Hi gai gai gai gai gai gai guai gai—Coricor dzio dzio pi." Ac OS oes awydd ar rai o'n darllenwyr i efelychu yr Eos, ac ymgystadlu a chantor y gwyll, bydded iddynt ymarfer digon ar y gân uchod. Os cyfieithiad yw yr uchod o ganiad yr Eos, pa beth yn eu ffurf wreiddiol? Dymunol fyddai ei chael mewn gwisg Gymreig."

E. Y. Williams, Dolgellau.

(Swnio'n ddigon tebyg i'r gân Gol.)

Bwgan Brocken Trawsfynydd



Llun: Keith O'Brien

Cysgod cof-golofn Bryn y Gofeb, Trawsfynydd, yn creu enfys "Brocken Spectre" - prin iawn yn ôl pob deall.

Cwyd ei Gwt

Dyma lun wnes i dynnu dydd Sadwrn [5 Hydref 2013] wrth gerdded llwybr yr Arfordir o Ponrhydybont i Rhoscolyn wrth gyfri adar. *Devil's Coach Horse* ydi o (sori ddim yn siwr o'r Gymraeg). cynnigion rhywun?



Llun a hanes: Efan Milner

Dydwi ddim yn gwybod yr enw Cymraeg am y chwilen hon chwaith... cynnigion rhywun? Mae o'n perthyn i'r *rove beetles* (chwilod crwydr yn ôl Geiriadur yr Academi), felly beth am chwilen grwydr y diafol? Gol.

Yn Llyfr Natur lolo yr enw Cymraeg am *devil's coach-horse* ydi cwyd ei gwt.

Nigel O Pitts


I wneud ein gwaith yn haws byddwch cystal ag anfon eich eich lluniau a'ch sylwadau yn syth i'r wefan. Os ydych yn cael trafferthion cysylltwch â ni ar llennatur@yahoo.co.uk

Cnwd mwyar 2013 - y gorau erieod




Aderyn du yn mwynhau ffrwyth yr hydref, Hydref 19 2013. Llun: Alun Williams

Tarth ar Y Fenai bore 'ma ... (24 Medi 2013)



Llun: Gerallt Pennant



Yn dilyn y llun o'r Fenai, dyma fesuriadau'r tywydd yn Llanfaglan ger llaw.

Ddim yn bosib rhoi mesuriadau popeth yn y llun ond dyma nhw.

Lleithder (glas golau) isaf 86% uchaf 99%

Gwllithbwynt (gwyrdd) isaf 9.8°C uchaf 16.7°C

Pwysedd Awyr (llwyd) isaf 1013.3mb uchaf 1018.2mb

Tymheredd (coch) isaf 11°C uchaf 18.7°C

Roedd hi'n gynnes yn y bore ond erbyn y prynhawn cafwyd niwl, fe gododd hwnnw a dychwelyd eto gyda'r hwyr. Cawod ysgafn o law hwyr yn y prynhawn.

Data a'r llun gan Ifor Williams

Cofio un o Gewri Caernarfon

Can mlynedd yn ôl i fis Tachwedd eleni, bu farw un o gewri tref Caernarfon, a'n cenedl. Yn fachgen bach tra'n mynd am dro gyda'i dad ar lan afon Seiont, fe glywodd sŵn ffrwydro o'r chwarel yn Llanberis, gofynnodd i'w dad, pam ei fod yn clywed y sŵn a hwnnw mor bell i ffrwrdd. Fe gododd ei dad garreg a'i thafllu i'r afon, weli di'r tonau yn y dŵr o'r garreg meddai, wel dyna'n union beth sydd yn digwydd yn yr awyr.


Yr hogyn bach hwn oedd Syr William Henry Preece, peiriannyd o fri, arloeswr yn natblygiad y teliffon, pennaeth y Swyddfa Bost, a mentor i neb llai na Marconi. Cewch mwy o'i hanes yma, a sawl gwefan arall.

www.100welshheroes.com/cy/biography/williamhenrypreece

Mae yna blac coffa i William Preece ar wal y swyddfa bost yng Nghaernarfon. Rhwng Huw Owen, Lloyd George a William Preece sydd yn cael eu coffau ar faes Caernarfon dim ond plac mae William Preece wedi ei haeddu.....hyd yma!

Ifor Williams

Helynt y cornchwiglod



"....gallaf adrodd un stori am ddigwyddiad a fu ym mis Mai tua'r flwyddyn 1920 pan oeddwn yn dechrau llafurio cae i'w hau. Cae i haidd ydoedd, gydag amryw Gornchwiglod yn nythu arno a'r wyau, mae'n debyg, ar fin deori. Mi es i'r cae hefo gwedd ifanc wedi cael eu porthi'n dda, ac angen gofal hefo nhw.

Dechrau llyfnu yr oeddwn, ac yn croesi drwy ganol y cae pan ddaeth dwy neu dair o'r Cornchwiglod i hedfan uwchben y ceffylau. Yr oedd un ohonynt yn ddewrach na'r lleill, ac yn troelli a disgyn yn sydyn, gan chwyrnellu hebio pen un o'r ceffylau. Gwnâi hyn am ryw drofa neu ddwy bob tro yr a'n i'r cae, yn y bore ac ar ôl cinio. Ond yn ystod yr ail neu'r trydydd ddiwrnod fe ddaeth hon yn fwy hy, ac fe drawodd y gaseg yn ei chlust hefo'i hadain, a pheri dychryn i'r anifail. Yn ei braw, tafodd y gaseg ei phen i gyfeiriad ei phartneres, a tharawodd pennau'r naill a'r llall yn erbyn ei gilydd. Fe ddychrynodd y ddwy yn waeth fyth wedyn, a chreu helynt difrifol inni Yn wir, bu raid imi ollwng v wedd a mynd adref. Dychwelais i'r cae hefo ci a gwn i chwilio am y gnawes feiddgar. Buan y daeth y Cornchwiglod i erlid yn ol a'r un yr oeddwn yn chwilio amdani yn dod yn nes i'r ci na'r lleill. Gwaith hawdd felly oedd ei phigo allan a rhoi terfyn arni er mwyn cael llonydd i lafurio ac i hau y cae. Tra bu'r gaseg honno yn fy meddiant, yr oedd arni ofn Cornchwiglod, a dyna chi'r gwir."

Colofn TG Walker, Y Cymro, lluniau: Eifion Griffith

Kelvin-Helmholtz



Llun:Irfon Williams

Tynnais y llun yma o gymylau 'Kelvin-Helmholtz' ar fynydd Pencarreg, ger Cwmann, ar fore oerlyd yn 2006.Mwy

http://en.wikipedia.org/wiki/Kelvin%E2%80%93Helmholtz_instability

Irfon Williams

Iaith anweddus noswyl yr eosiaid

Cambrian 26 Mai 1905

How He "Heard" the Nightingale

At Aberavon on Monday William Charles, Taibach, was charged with using indecent language in Brombil Valley, Margam. P.S. Hawten said defendant was one of six hundred who visited the Brombil Valley to hear the nightingale. Defendant and another person were walking up the valley, one playing a melodion and the other singing. Defendant then made use of the language. Defendant admitted using the language. "It slipped out, sir," he declared.—Fined 10s. and costs.